# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhaglen | 2 |
| 2 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf | 7 |
| 10 - Rheolaeth Trysorlys - Addasiad i Strategaeth Fuddsoddi 2014-15 | 15 |
| 11 - Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor 2015-16 | 19 |
| 12 - Treth Cyngor - Hawl Disgresiwn i Ganiatau Disgowntiau | 24 |
| 13 - Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd - Amserlen ddiwygiedig yn y Cytundeb Cyflawni | 27 |

**Adran y Prif Weithredwr**
**Chief Executive's Department**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# Y CYNGOR
# THE COUNCIL

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**1.00pm, DYDD IAU, 4 RHAGFYR 2014**

**1.00pm, THURSDAY, 4 DECEMBER 2014**

Lleoliad / Location

**Siambr Dafydd Orwig**
**Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Eirian Roberts**

**(01286) 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

(DOSBARTHWYD / DISTRIBUTED 26/11/14)

**Dilwyn Williams**
**Prif Weithredwr / Chief Executive**

www.gwynedd.gov.uk

26 Tachwedd / November 2014

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – 4 RHAGFYR 2014**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00PM, DYDD IAU** nesaf, **4 RHAGFYR 2014 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Dear Councillor,

**MEETING OF GWYNEDD COUNCIL – 4 DECEMBER 2014**

**YOU ARE HEREBY SUMMONED** to attend a meeting of **GWYNEDD COUNCIL** which will be held at **1.00PM** on **THURSDAY** next, **4 DECEMBER 2014 in SIAMBR DAFYDD ORWIG, COUNCIL OFFICES, CAERNARFON** to consider the matters mentioned in the following agenda.

Yr eiddoch yn gywir/Yours faithfully,



Prif Weithredwr/Chief Executive

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-
The following rooms will be available for the political groups during the morning:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol/Independent – Siambr Hywel Dda
Llais Gwynedd – Ystafell Gwyrfai
Democratiaid Rhyddfrydol/Liberal Democrats - Ystafell Peris
Llafur/Labour – Cefn Siambr Dafydd Orwig/Rear of Siambr Dafydd Orwig

# RHAGLEN

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. **COFNODION**

   Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 9 Hydref, 2014 fel rhai cywir (ynghlwm).

3. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

4. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

   Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

5. **GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

   Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

6. **MATERION BRYS**

   Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

7. **CWESTIYNAU**

   Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan y Rheolau Gweithdrefn.

8. **CYFLWYNIAD GAN YR AELOD CABINET GOFAL CWSMER**

   Derbyn cyflwyniad llafar gan yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer.

9. **HER GWYNEDD**

   Derbyn cyflwyniad llafar gan yr Aelod Cabinet Adnoddau a'r Prif Weithredwr.

10. **RHEOLAETH TRYSORLYS: ADDASIAD I STRATEGAETH FUDDSODDI 2014/15**

    Ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid (ynghlwm).

11. **CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2015/16**

Ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid (ynghlwm).

**12. TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATAU DISGOWNTIAU – 2015/16**

Ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid (ynghlwm).

**13. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD – AMSERLEN DDIWYGIEDIG YN Y CYTUNDEB CYFLAWNI**

Ystyried adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio (ynghlwm).

**14. RHYBUDDION O GYNNIG**

(A) Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrthi o dan y Rheolau Gweithdrefn, bydd y Cynghorydd Elin Walker Jones yn cynnig fel a ganlyn:-

**"Mae Cyngor Gwynedd yn datgan gwrthwynebiad llwyr i Bartneriaeth Fasnach a Buddsoddiad Trawsiwerydd: (TTIP: Transatlantic Trade and Investment Partnership). Cytundeb masnachu rhwng yr Unol Daleithiau ac Ewrop yw TTIP, sy'n cael eu trafod y tu ôl i ddrysau caeedig ac yn annemocrataidd. Mae TTIP yn ceisio lleihau rhwystrau rheoleiddiol i fusnesau mawr - pethau fel cyfraith diogelwch bwyd ac amgylcheddol, rheoliadau bancio a grym cenhedloedd unigol. Mae gwasanaethau fel y GIG mewn peryg' - mae TTIP yn fandad i gwmnïau preifat gymryd gwasanaethau drosodd. Ar hyn o bryd, mae'r trafodaethau yn dal i gynnwys y GIG. Mae'r trafodaethau yn peryglu democratiaeth gan y bydd hawl gan gwmnïau preifat erlyn llywodraethau os yw polisïau'r llywodraethau hynny yn achosi colledion mewn elw. Mandad i gwmnïau mawr i gymryd yr awenau yw hwn, yn hytrach na'r system ddemocrataidd, etholedig fel sydd gennym ar hyn o bryd.**

**'Rydym yn galw ar yr Undeb Ewropeaidd i atal yr holl drafodaethau am TTIP; i gyhoeddi y mandad trafod, ac i ganiatáu archwiliad priodol o'r cytundeb gan Senedd Ewrop, Seneddau Cenedlaethol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.**

**'Rydym yn galw ar Arweinydd y Cyngor i ysgrifennu at ein aelodau seneddol yn Ewrop i fynegi ein gwrthwynebiad ar fyrder."**

Derbyniwyd rhybudd trefniadaethol gan yr aelod hefyd yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn yn gofyn am gael trafod y mater ar y diwrnod yn hytrach na'i gyfeirio i'r pwyllgor perthnasol.

(B) Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrthi o dan y Rheolau Gweithdrefn, bydd y Cynghorydd Siân Gwenllian yn cynnig fel a ganlyn:-

**“Mae’r Cyngor hwn yn nodi:**

- **Amcangyfrifwyd bod Trysorlys y Deyrnas Unedig yn colli cymaint â £12 biliwn bob blwyddyn oherwydd fod cwmnïau rhyngwladol yn osgoi talu trethi.**
- **Mae’r defnydd o hafanau trethi gan gwmnïau’r Deyrnas Unedig yn rhemp, gyda 98 o 100 cwmni’r FTSE yn defnyddio hafanau trethi fel mater o drefn.**
- **Mae cwmnïau rhyngwladol mawr yn talu cyn lleied â 5% mewn trethi corfforaethol yn fyd-eang, tra bod busnesau llai yn talu hyd at 30%.**

**Mae’r Cyngor hwn yn credu:**

- **Fel awdurdod lleol mae gennym ddyletswydd i ddarparu’r gwasanaethau cyhoeddus gorau bosib’.**
- **Byddai ein gallu i ddarparu gwasanaethau lleol o safon yn cael ei wella’n sylweddol gan gynnydd mewn refeniw gan y llywodraeth o ganlyniad i fynd i’r afael ag osgoi trethi.**
- **Dylai pawb sy’n elwa ar wariant cyhoeddus gyfrannu eu cyfran deg.**
- **Mae’n rhaid i’r Deyrnas Unedig arwain y blaen wrth greu system dreth decach a mynd i’r afael ag osgoi treth.**

**Mae’r Cyngor hwn yn penderfynu:**

- **I gefnogi’r ymgyrch dros gyfiawnder trethi a chefnogi’r cynnig isod:**

**Tra mae llawer o bobl gyffredin yn wynebu gostyngiad yn incwm y cartref a chynnydd mewn costau byw, mae rhai cwmnïau rhyngwladol yn osgoi biliynau o bunnoedd o drethi mewn system dreth sy’n methu gwneud iddyn nhw dalu eu cyfran deg. Byddai llywodraethau lleol mewn gwledydd sy’n datblygu ac yn y Deyrnas Unedig fel ei gilydd yn elwa o system dreth decach lle mae cwmnïau rhyngwladol yn talu eu cyfran deg, gan alluogi awdurdodau o amgylch y byd i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o safon. ‘Rydym yn galw ar lywodraeth y Deyrnas Unedig i weithredu a rhoi terfyn ar anghyfiawnder cwmnïau rhyngwladol mawr sy’n osgoi talu trethi.”**

Derbyniwyd rhybudd trefniadaethol gan yr aelod hefyd yn unol â’r Rheolau Gweithdrefn yn gofyn am gael trafod y mater ar y diwrnod yn hytrach na’i gyfeirio i’r pwyllgor perthnasol.

# Y CYNGOR, 9.10.14

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Dewi Owen (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ag Iago, Stephen Churchman, Endaf Cooke, Edward Dogan, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Trevor Edwards, Thomas Ellis, Alan Jones Evans, Aled Evans, Jean Forsyth, Simon Glyn, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllian, Annwen Hughes, Chris Hughes, Jason Humphreys, Peredur Jenkins, Aeron Jones, Brian Jones, Charles W.Jones, Elin Walker Jones, Eric Merfyn Jones, John Wynn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, June E.Marshall, Linda Morgan, Michael Sol Owen, William Tudor Owen, Nigel Pickavance, Peter Read, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Paul Thomas, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams, John Wyn Williams, Owain Williams, R.H.Wyn Williams, Mandy Williams-Davies a Robert J.Wright.

**Hefyd yn bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr), Arwel E.Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Dafydd Wyn Williams (Uwch Reolwr Trafnidiaeth), Geraint Owen (Uwch Reolwr Adnoddau Dynol), Janet Roberts (Uwch Reolwr Gwasanaeth Cyflawni a Chefnogi Newid), Anthony Williams (Swyddog Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Anwen Davies, Lesley Day, Gwynfor Edwards, Gweno Glyn, Gwen Griffith, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Anne Lloyd Jones, Dyfrig Jones, Linda A.W.Jones, Llywarch Bowen Jones, Sion Wyn Jones, Dilwyn Lloyd, Dafydd Meurig, W.Roy Owen, Caerwyn Roberts ac Eurig Wyn.

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Aeron Jones.

## 1. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf, 2014 fel rhai cywir.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Simon Glyn fuddiant personol yn deillio o gyflogaeth yn eitem 9 ar y rhaglen – Ad-drefnu Llywodraeth Leol.

'Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant, ond nad oedd yn rhagfarnu, a chymerodd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

(a) Cydymdeimlad

Cydymdeimlwyd â'r canlynol:-

Y Cynghorydd Annwen Hughes ar golli ei mam.

Y Cynghorydd Peter Read ar golli ei dad.

Y Cynghorydd Roy Owen ar golli ei fam yng nghyfraith.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am eraill o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

(b) Dymuniadau Gorau

Dymunwyd yn dda i'r Prif Weithredwr newydd, Dilwyn Williams, oedd yn bresennol yn ei gyfarfod cyntaf o'r Cyngor fel Prif Weithredwr.

Nodwyd hefyd y byddai hwn wedi bod y cyfarfod cyntaf o'r Cyngor i Iwan Evans, fel y Swyddog Monitro newydd, ond oherwydd profedigaeth, bod y Dirprwy Swyddog Monitro yn bresennol ar ei ran.

(c) Llongyfarchiadau

Llongyfarchwyd pawb o Wynedd a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr eleni, yn enwedig Guto Dafydd, Strategol a Gwella ar ennill y Goron a Lleucu Roberts ar ennill y Fedal Ryddiaith a Gwobr Goffa Daniel Owen.

Hefyd, llongyfarchwyd Haf Thomas, Adnoddau Dynol, ar gael ei derbyn i'r Orsedd.

(ch) Achos Da

Nodwyd bod taith feicio gan 'Gafael Llaw', sef elusen o'r ardal a sefydlwyd er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc sy'n dioddef o gancr, wedi llwyddo i godi £60,000, gyda'r arian yn mynd tuag at gefnogi nod yr elusen o uwchraddio cyfleusterau ac adnoddau i blant yn Ward Dewi, Ysbyty Gwynedd.

Nodwyd bod tua 20 o bobl o Wynedd wedi mynd ar y daith 650 milltir dros 7 diwrnod, gan fynd o gwmpas 15 o wardiau plant ysbytai Cymru, a bod dau o'r seiclwyr yn aelodau o staff y Cyngor, sef Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol (a Chadeirydd Gafael Llaw) a Steffan Jones, Uwch Reolwr o fewn yr Adran Briffyrdd.

'Roedd y ddau yn hynod werthfawrogol o gefnogaeth staff ac aelodau'r Cyngor i'r daith feicio ac am yr holl gyfraniadau ariannol.

(d) Nodyn

Nodwyd y bu'r Cyngor yn llwyddiannus unwaith eto yn adnewyddu Gwobr Aur y Safon Iechyd Corfforaethol, a hynny yn ystod cyfarfod ail asesiad, a'i fod bellach yn un o chwe awdurdod lleol yn unig yng Nghymru sy'n dal y lefel uchel yma. 'Roedd y safon, sy'n cael ei harwain gan Lywodraeth y Cynulliad, yn asesu gweithgareddau hybu iechyd a mentrau a weithredir gan gyflogwyr er mwyn gofalu am iechyd a lles eu staff.

Nodwyd, yn ystod Seremoni Wobrwyo Canolfan Cydweithredol Cymru Cyf yn ddiweddar, y cyfeiriodd Prif Weithredwr y Ganolfan yn benodol at waith y Cyngor o safbwynt cefnogi'r sector mentrau cymdeithasol yng Ngwynedd. Cyfeiriodd at statws Gwynedd fel "Ardal Menter Gymdeithasol", y gefnogaeth a roddir i fentrau cymdeithasol yn yr ardal a'r gwaith a gyflawnir o ran adnabod cyfleoedd i fentrau ddarparu a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau ar ran y Cyngor. Cyflwynwyd tlws i'r Cyngor er mwyn cydnabod ei waith gwerthfawr yn y maes yma.

## 4. CWESTIYNAU

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Eryl Jones-Williams**

"A gawn ni fel cynghorwyr ddarlun clir o'r sefyllfa mewn perthynas â Chynllun Bont Briwet o ran yr oedi, y bont gerbydau a'r dyddiadau cwblhau ar gyfer y cynllun?"

**Ateb gan y Cynghorydd Gareth Roberts, Aelod Cabinet Amgylchedd**

*(Dosbarthwyd ateb ysgrifenedig yr Aelod Cabinet i'r aelodau yn eu cyfarfodydd grwpiau ar fore'r Cyngor.)*

"'Rwy'n cydymdeimlo â'r bobl o gwmpas y safle. Mae'n amlwg yn creu anhwylustod ond y newydd da yw ei fod yn fuddsoddiad o £20m i'r ardal a bydd y lle yn llawer iawn gwell o wneud y cynllun yma a bydd y bont newydd yn llawer gwell na'r hen un. Felly mae'n mynd i wneud gwahaniaeth mawr i'r ardal yna."

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Eryl Jones-Williams**

"A fydd cost ariannol ar Gyngor Gwynedd am yr oedi?"

**Ateb gan y Cynghorydd Gareth Roberts, Aelod Cabinet Amgylchedd**

"Mae'n anodd rhoi ateb pendant oherwydd mae'r contract wedi ei roi i Hochtief ac mae'r risgiau wedi eu trosglwyddo i'r cwmni sy'n gwneud y bont, oni bai fod yna ryw fai arnom ni fel Cyngor. Os oes bai arnynt hwy, yna hwy sy'n cario'r risg. Cyn belled ag 'rwy'n ymwybodol ar y funud, nid oes bai arnom ni hyd yma mewn unrhyw ffordd na modd felly pe byddent yn mynd dros y dyddiad, eu colled hwy fyddai ac ni fyddai yna unrhyw fath o risg ariannol i'r Cyngor yma. Bu yna un achos gyda'r peilon, ond mae Hochtief wedi setlo hefo'r Grid Cenedlaethol am hynny, felly eto, nid ein bai ni ydoedd, ond 'roedd yn rhywbeth nad oedd Hochtief yn ymwybodol ohono o'r dechrau. Mae pob dim arall yn bethau maent wedi gorfod meddwl amdanynt, megis trosglwyddo'r beipen ddŵr, ac ati. Os oes yna oedi hefo'r cwmni sy'n trosglwyddo hwnnw, mae'n rhywbeth y dylai cwmni Hocthtief fod wedi meddwl amdano ymlaen llaw. Felly, nid oes unrhyw risg i ni ar y funud, ond petai yna unrhyw fai arnom ni am ryw reswm, mater arall fyddai hynny."

## 5. CYFLWYNIAD GAN YR AELOD CABINET ECONOMI

Derbyniwyd cyflwyniad gan y Cynghorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Economi yn manylu ar y meysydd y mae'n ymwneud â hwy, blaenoriaethau'r gwasanaeth, y gweithgareddau sydd ar y gweill ar hyn o bryd a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gyfres o gwestiynau gan yr aelodau mewn perthynas â:-

- Pharth Menter Eryri a dyfodol safle Trawsfynydd;
- Hyrwyddo twristiaeth yn Ne Gwynedd;
- Gwella cydweithio rhwng y gwasanaethau cynllunio ac economi;

- Pwysigrwydd cefnogi gorsafoedd petrol a busnesau manwerthu mewn ardaloedd gwledig;
- Incwm o wyliau a digwyddiadau.

Nodwyd bod cyn Amgueddfa Forwrol Seiont II yn parhau i fod ar y mapiau ar yr hysbysfyrddau ymwelwyr o gwmpas tref Caernarfon a chytunodd yr Aelod Cabinet i basio'r sylw ymlaen i'r adran.

Diolchwyd i'r Aelod Cabinet am ei gyflwyniad a llongyfarchwyd y Cynghorydd Siân Gwenllian ar ei phenodi'n Bencampwr Busnesau Bach.

**6. AD-DREFNU LLYWODRAETH LEOL**

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn ceisio barn y Cyngor ar y safbwynt drafft a gynigiwyd ym mharagraffau 9.1 i 9.4 o'r adroddiad mewn ymateb i Bapur Gwyn y Llywodraeth ar Ad-drefnu Llywodraeth Leol.

Yn ystod y drafodaeth:-

- Nodwyd bod paragraff 9.4(ch) yn gwbl greiddiol i safbwynt y Cyngor. Pwysleisiwyd bod rhaid bod yn ddi-ildio wrth drafod gyda chynghorau eraill er sicrhau nad yw Polisi Iaith y Cyngor hwn yn cael ei wanhau mewn unrhyw ffordd ac awgrymwyd rhestru amcanion presennol Cynllun Iaith y Cyngor o dan baragraff 9.4(ch) er mwyn atgyfnerthu safiad y Cyngor hwn.
- Cytunwyd y dylid gwarchod buddiannau trigolion Gwynedd, ond awgrymwyd felly bod peryg' wrth gwtogi ar nifer y cynghorwyr yn y cymunedau.
- Pwysleisiwyd bod yr ad-drefnu am ddigwydd beth bynnag, boed hynny yn 2018 neu 2020, a chan fod yna gymhellion ariannol i gynghorau sy'n uno'n wirfoddol, ni ddylid cau'r drws ar unrhyw bosibilrwydd allai arwain at arbedion mewn costau rheolaethol, canolog neu swyddfa gefn a fyddai, yn ei dro, yn gallu lleihau maint y toriadau y bydd yn rhaid i unrhyw gyngor eu gwneud dros y blynyddoedd nesaf.
- Awgrymwyd y dylid cadw cil y drws yn agored, ond gan aros i weld yn gyntaf pa gymhellion y bwriedir eu cynnig i gynghorau sy'n uno'n wirfoddol.
- Nodwyd peth pryder am golli'r elfen '*leol'* o lywodraeth leol.

Pleidleisiwyd ar y cynnig, gyda'r ychwanegiad i gynnwys cyfeiriad at amcanion presennol Cynllun Iaith y Cyngor, ac fe gariodd.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r safbwynt drafft a gynigiwyd ym mharagraffau 9.1 i 9.4 o'r adroddiad mewn ymateb i Bapur Gwyn y Llywodraeth ar Ad-drefnu Llywodraeth Leol, gan ymestyn paragraff 9.4(ch) i nodi fel a ganlyn:-**

***"Mae gweithredu Polisi Iaith sydd yn gadarn o blaid y Gymraeg yn allweddol ar gyfer unrhyw gyngor newydd y byddai Gwynedd yn rhan ohono i'r dyfodol, yn cynnwys amcanion presennol Cynllun Iaith y Cyngor, sef:-***

- ***Galluogi pawb sy'n derbyn neu'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor, neu'n cyfrannu at y broses ddemocrataidd, i wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl eu dewis personol.***
- ***Hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg ym mywyd ardal y Cyngor gan fod yn angor i'r iaith yn ei hadfywiad ledled Cymru.***
- ***Hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg gan gyrff cyhoeddus eraill sy'n ymwneud â'r Cyngor a chefnogi a hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg gan gyrff a busnesau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn ardaloedd y Cyngor.***

- ***Sefydlu'r Gymraeg fel iaith swyddogol gweinyddiad mewnol y Cyngor gan ddarparu cyfleusterau hyfforddiant mewn swyddi i alluogi i staff ddatblygu eu sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg a'r Saesneg.***
- ***Datblygu gallu disgyblion a myfyrwyr i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni."***

## 7. POLISI TÂL Y CYNGOR

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Adnoddau adroddiad yn argymell addasiad i'r Polisi Tâl er mwyn hwyluso'r gallu i benodi.

Nododd yr Aelod Cabinet, yn sgil derbyn barn gyfreithiol yn ddiweddar iawn, ei fod bellach yn argymell i'r Cyngor addasu ei Bolisi Tâl drwy ymestyn lefel tâl Prif Swyddogion i gynnwys darpariaeth ar gyfer ychwanegiad atodiad marchnad o hyd at £5,000. Eglurodd y byddai'r lefel ychwanegol yn daladwy ar benodiad yn unig petai asesiad risg busnes yn dangos cyfiawnhad eglur o angen a byddai'r asesiad risg busnes yn cael ei gwblhau a'i weithredu gan y corff penodi.

'Roedd rhai aelodau o'r farn na ddylid cynnig unrhyw atodiad marchnad i Brif Swyddogion yn yr hinsawdd ariannol bresennol, ond nododd sawl aelod arall fod rhaid talu pris y farchnad er mwyn denu'r ymgeiswyr gorau bosib'.

Fel cyfaddawd, cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i gynnwys darpariaeth ar gyfer atodiad marchnad o hyd at £3,000.

Rhoddwyd rhybudd o welliant pellach.

Yn ei sylwadau cloi, nododd yr Aelod Cabinet ei fod yn derbyn y gwelliant a thynnodd ei gynnig gwreiddiol yn ôl gyda chaniatâd y cyfarfod a'r eilydd. Gan hynny, 'roedd y cynnig fel y cafodd ei wella yn disodli'r cynnig gwreiddiol ac yn dod yn gynnig gwreiddiol.

Galwyd am bleidlais gofrestredig ar y cynnig gwreiddiol.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i gynnwys darpariaeth ar gyfer atodiad marchnad o hyd at £2,000.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant ac fe ddisgynnodd.

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y cynnig gwreiddiol:-

**O blaid y cynnig: (38)** Y Cynghorwyr Craig ab Iago, Edward Dogan, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Jean Forsyth, Selwyn Griffiths, Siân Gwenllian, Annwen Hughes, Peredur Jenkins, Charles W.Jones, Eric Merfyn Jones, John Wynn Jones, Beth Lawton, June E.Marshall, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Michael Sol Owen, William Tudor Owen, Nigel Pickavance, Peter Read, John Pughe Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Paul Thomas, Eirwyn Williams, Gethin Glyn Williams, Hefin Williams, John Wyn Williams, R.H.Wyn Williams, Mandy Williams-Davies.

**Atal: (2)** Y Cynghorwyr Elin Walker Jones ac Eryl Jones-Williams.

**Yn erbyn: (14.)** Y Cynghorwyr Stephen W.Churchman, Endaf Cooke, Thomas Ellis, Simon Glyn, Alwyn Gruffydd, Chris Hughes, Jason Humphreys, Aeron Jones, Ann Williams, Elfed Williams, Gruffydd Williams, Owain Williams a Robert J.Wright.

**PENDERFYNWYD addasu'r Polisi Tâl drwy ymestyn lefel tâl Prif Swyddogion i gynnwys darpariaeth ar gyfer ychwanegiad atodiad marchnad o hyd at £3,000, yn daladwy lle mae hwnnw wedi'i gyfiawnhau gan asesiad risg busnes.**

## 8. DIWYGIO'R CYFANSODDIAD

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn argymell addasiadau i'r Cyfansoddiad:-

(a) i ymateb i'r newidiadau cyfrifoldebau yn dilyn ail strwythuro'r cyn Adran Democratiaeth a Chyfreithiol
(b) er sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion statudol Rheoliadau Llywodraeth Leol (Gorchmynion Sefydlog)(Cymru)(Diwygio) 2014
(c) i ymdrin â mynychu cyfarfodydd o bell drwy gyfarpar fideo
(ch) i ymdrin â sefyllfa cadeirio'r Pwyllgorau Trwyddedu Canolog a Thrwyddedu Cyffredinol.

Ar bwynt o gywirdeb, nodwyd y dylai'r geiriad newydd yn y fersiwn Saesneg o Atodiad 3 fod wedi'i danlinellu, yn hytrach na'i groesi allan.

**PENDERFYNWYD addasu'r Cyfansoddiad yn unol â chynnwys Atodiadau 1-4 o'r adroddiad, yn ddarostyngedig i gywiro'r fersiwn Saesneg o Atodiad 3 i ddarllen:-**

***"PROCEDURAL ORDER 9.12.3***

***(5) No member shall serve as a chairman on more than one committee. This provision shall not prevent a member who is a chairman of a committee from taking the chair of a committee under paragraph (2) <u>nor from serving as the chairman of the Central Licensing Committee and the General Licensing Committee at the same time</u>."***

## 9. PENODI AELOD ETHOLEDIG I'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn argymell i'r Cyngor benodi'r Cynghorydd Lesley Day i'r Pwyllgor Safonau.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Lesley Day i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau fel Aelod Etholedig am gyfnod o bedair blynedd neu tan yr etholiad llywodraeth leol cyffredin nesaf yn dilyn ei phenodiad, p'un bynnag fo'r byrraf.**

## 10. ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2013/14

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn argymell i'r Cyngor gymeradwyo'r ddogfen yn ddarlun cytbwys, teg a chywir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2013/14, a'i fabwysiadu.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad yn adlewyrchiad cytbwys, teg a chywir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2013/14, a'i fabwysiadu.**

## 11. RHYBUDDION O GYNNIG

(A) Adroddwyd y derbyniwyd rhybudd o gynnig, ynghyd â rhybudd trefniadaethol, yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, gan y Cynghorydd Owain Williams, i drafod y cynnig canlynol yn y Cyngor llawn, yn hytrach na'i gyfeirio i bwyllgor.

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

**"O ganlyniad i'r ymosodiadau diweddaraf ar diriogaeth y Palesteiniaid sy'n byw ar Lain Gaza gan Wladwriaeth Israel, mae'r Cyngor hwn yn galw am waharddiad masnachu ar Israel ac yn condemnio'r gor-ymateb a'r mileindra a ddefnyddiwyd.**

**Ymhellach i hyn, 'rydym yn cadarnhau a thanlinellu penderfyniad y Cyngor hwn i beidio buddsoddi yn Israel na sefydliadau'r wlad honno.**

**Credwn os bydd Gwynedd yn arwain y ffordd bod gobaith i gynghorau eraill yng Nghymru a thu hwnt ddilyn ein hesiampl."**

Yn ystod y drafodaeth:-

- Cefnogwyd y cynnig a llongyfarchwyd yr aelod am ddod â'r mater gerbron.
- Nodwyd ei bod yn bwysig bod Cyngor Gwynedd yn edrych allan ar y byd ac yn ceisio dylanwadu gorau y gallai ar sefyllfa fel hyn.
- Pwysleisiwyd bod angen gwneud yn glir bod y cynnig yn condemnio Gwladwriaeth Israel, ac nid y Grefydd Iddewig.

**PENDERFYNWYD derbyn y cynnig.**

(B) Adroddwyd y derbyniwyd rhybudd o gynnig, ynghyd â rhybudd trefniadaethol, yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, gan y Cynghorydd Mair Rowlands, i drafod y cynnig canlynol yn y Cyngor llawn, yn hytrach na'i gyfeirio i bwyllgor.

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

**"Bod y Cyngor hwn yn defnyddio parth *.Cymru* gan ddefnyddio'r cyfeiriad gwefan *gwynedd.cymru* yn hytrach na *gwynedd.gov.uk* ac ein bod yn annog cynghorau eraill trwy Gymru i ddilyn ein hesiampl."**

Yn ystod y drafodaeth, mynegwyd cefnogaeth i'r cynnig a llongyfarchwyd yr aelod am ddod â'r mater gerbron.

Ar bwynt o eglurhad, cyfeiriodd yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer at waith cenedlaethol a gyflawnwyd ar hyn eisoes. Nododd:-

- O leiaf 18 mis yn ôl, y gofynnwyd i sefydliadau cyhoeddus ddatgan diddordeb mewn defnyddio'r estyniad newydd .cymru/.wales a pha gyfeiriadau y byddent yn dymuno eu cofrestru.
- Y gofynnodd Cyngor Gwynedd am gwynedd.cymru, gwynedd.wales, cyngorgwynedd.cymru a gwyneddcouncil.wales.
- Na fyddai gwynedd.cymru na gwynedd.wales yn cael ei warchod i Gyngor Gwynedd, gan ei fod yn cyfeirio at ardal yn hytrach na sefydliad, ond cafwyd cadarnhad bod cyngorgwynedd.cymru a gwyneddcouncil.wales wedi ei warchod i'r Cyngor.
- Bod hyn yn dilyn y safon genedlaethol "cyngor[enw'rcyngor].cymru" a "[council name]council.wales".

- Bod yr estyniad presennol, sef .gov.uk wedi ei neilltuo i sefydliadau llywodraeth leol a chanol yn unig.
- Bod Llywodraeth Cymru mewn trafodaeth gyda Nominet (y corff sy'n gyfrifol am gofrestru'r enwau parth) ar gyfer sefydlu llyw.cymru a gov.wales.

Yn wyneb yr eglurhad, diwygiodd y cynigydd ei chynnig fel a ganlyn gyda chaniatâd y cyfarfod a'r eilydd.

**"Bod y Cyngor hwn yn defnyddio parth *.Cymru* gan ddefnyddio'r cyfeiriad gwefan *cyngorgwynedd.cymru* a *gwyneddcouncil.wales* yn hytrach na *gwynedd.gov.uk* ac ein bod yn annog cynghorau eraill trwy Gymru i ddilyn ein hesiampl."**

Pleidleisiwyd ar y cynnig diwygiedig, ac fe gariodd.

**PENDERFYNWYD derbyn y cynnig diwygiedig.**

(C) Cyflwynwyd, er gwybodaeth, lythyr gan Brif Weinidog yr Alban mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Alwyn Gruffydd i'r cyfarfod diwethaf ynghylch y refferendwm ar annibyniaeth i'r Alban.

**PENDERFYNWYD nodi'r llythyr.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 3.15pm

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **4 RHAGFYR 2014** |
| **TEITL** | **RHEOLAETH TRYSORLYS: ADDASIAD I STRATEGAETH FUDDSODDI 2014/15** |
| **PWRPAS** | **MABWYSIADU’R ADDASIADAU A GYNIGIR** |
| **AWDUR** | **DAFYDD L EDWARDS - PENNAETH CYLLID** |
| **AELOD CABINET** | **Y CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

**<u>Cyflwyniad a Chefndir</u>**

**1.** Mae Cod Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus yn mynnu bod y Cyngor yn paratoi datganiad polisi a phapurau ymarfer, ynghyd ag atodlen fanwl yn nodi bwriad y Cyngor wrth ymdrin â’i holl weithrediadau trysorlys. Prif ofyniad y cod yw i’r Cyngor llawn gymeradwyo’r Datganiad Polisi, y papurau ymarfer a’r atodlen. Fe gymeradwywyd rhain (parthed 2014/15) gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2014.

**<u>Rheoleiddio Banciau’r DU</u>**

**2.** Mae’r Strategaeth cymeradwywyd ym mis Mawrth yn cynnwys atodlen o wrthbartïon cymeradwy (yn bennaf, banciau lle gall y Cyngor adnau arian). Mae newidiadau mewn rheoleiddio ar gyfer banciau yn golygu fod angen adolygu a diweddaru’r atodlen yma rŵan.

**3.** Mae’r Deyrnas Unedig yn gweithredu’r darpariaethau ‘bail-in’ Cyfarwyddyd Adferiad a Datrysiad Banciau’r Undeb Ewropeaidd ym mis Ionawr 2015, flwyddyn o flaen y mwyafrif o wledydd eraill. Mae’r asiantaethau credyd-raddio wedi datgan eu bwriad i adolygu statws credyd banciau Ewropeaidd pryd bydd y wlad yn gweithredu’r cyfarwyddyd hwn.

**4.** Ar ben ei hunain, mae statws credyd nifer o fanciau Prydain yn y categori “BBB”, ond mae’r potensial am gefnogaeth gan y llywodraeth yn eu codi i gategori “A”. Pan mae’r cyfarwyddyd yn cael ei weithredu, ni fydd cefnogaeth y llywodraeth yn bodoli bellach. Felly, mae risg gwir bydd statws credyd rhai o fanciau mwyaf y DU yn disgyn i lefel o dan categori “A-” cyn diwedd y flwyddyn ariannol 2014/15.

**<u>Y Ffordd Ymlaen – Opsiynau</u>**

**5.** Mae dau ddewis mewn ymateb i’r risg hon:

(a) newid y Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys er mwyn caniatáu buddsoddi (adnau arian) mewn banciau gyda statws credyd is, neu

(b) paratoi i fuddsoddi heb ddefnyddio unrhyw un o’r banciau mwyaf y DU.

Byddai dewis (b) yn golygu adolygiad llym o’r gwrthbartïon buddsoddi ar ganol blwyddyn, ac mae ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y Cyngor yn argymell opsiwn (a) uchod.

**6.** Er mwyn parhau i ddefnyddio banciau'r DU, bydd angen ychwanegu categori banciau a sefydliadau sydd â statws credyd “ BBB+” at y rhestr gwrthbartïon buddsoddi awdurdodedig.

**7.** Ymhellach, gan nad ydym yn argymell gostwng diffiniad “ansawdd credyd uchel” yn is na “A-”, rydym angen newid cyfyngiadau “buddsoddiadau amhenodedig” i ganiatáu buddsoddiadau gyda gwrthbartïon “BBB+”.

## Addasiadau i’r Atodlenni a Argymhellir

**8.** Mae’r paragraffau diwygiedig o’r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2014/15 ynghlwm fel Atodiad A gyda’r addasiadau wedi’u lliwio’n felyn:

(a) Tabl 2: Gwrthbartïon Buddsoddi Cymeradwy, ble mae’r categori “BBB+” wedi cael ei gynnwys gyda chyfuniad o £4miliwn fesul gwrthbarti.

(b) Tabl 3: Cyfyngiadau ar Fuddsoddiadau Amhenodedig, ble mae cyfanswm y buddsoddiadau heb statws credyd, neu gyda statws sy’n is na “A-”, wedi cael ei godi o £7 miliwn i £20 miliwn, er mwyn caniatáu parhau defnyddio banciau'r DU fel gwrthbartion. Mae cyfanswm y buddsoddiadau amhenodedig hefyd wedi cael ei godi o £50m i £60m.

## Llif Arian y Gronfa Bensiwn

**9.** Fel awdurdod gweinyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd mae’r Cyngor yn darparu swyddogaethau rheolaeth trysorlys ar ei gyfer trwy uno arian dros ben y Cyngor ac arian dros ben y Gronfa Bensiwn at ddibenion buddsoddi dyddiol. Mae’r Pwyllgor Pensiynau wedi cymeradwyo’r elfennau perthnasol o Ddatganiad Strategaeth y Cyngor ac wedi gofyn i barhau gyda’r trefniadau pwlio ar gyfer 2014/15 yn ei gyfarfod ar 17 Mawrth 2014. Cyflwynir y gwelliannau yma i’r Pwyllgor Pensiynau ar 6 Ionawr 2015 i’w cymeradwyo.

## Craffu’r Addasiadau

**10.** Oherwydd yr amserlen pwyllgorau, nid oedd hi’n bosib i’r Pwyllgor Archwilio ystyried y newidiadau cyn cyflwyno’r adroddiad hon i’r Cyngor llawn. Mae angen y mesurau yma ar gyfer y tri mis tan 31 Mawrth 2015. Bydd ystyried cyflawn o’r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2015/16 yn digwydd yn ystod Ionawr a Chwefror 2015 cyn ystyriaeth gan y Cyngor ar 5 Mawrth 2015. Bydd hyn yn cynnwys cyfle i holi swyddogion ac ymgynghorwyr arbenigol ynglŷn â’r gofynion a’r cyfyngiadau gwrthbartïon.

## Argymhelliad

**11. Gofynnir i’r Cyngor fabwysiadu’r addasiadau i’r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a’r Strategaeth Buddsoddi am 2014/15 (Atodiad A) ar gyfer y tri mis o 1 Ionawr 2015 i 31 Mawrth 2015.**

**Atodiad A**

Mae'r newidiadau i'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2014/15 wedi cael eu lliwio'n felyn yn y tablau isod.

5.3 Gall y Cyngor fuddsoddi'r cronfeydd dros ben sydd ganddo gydag unrhyw un o'r gwrthbartïon yn nhabl 2 isod, yn amodol ar y cyfyngiadau arian ac amser a ddangosir.

**Tabl 2: Gwrthbartïon Buddsoddi Cymeradwy**

<table>
<tr><th colspan="2">Gwrthbarti</th><th>Cyfyngiad arian</th><th>Cyfyngiad amser</th></tr>
<tr><td rowspan="8">Banciau a sefydliadau a chyrff gwarant eraill sydd â'u statws credyd tymor hir isaf a gyhoeddwyd gan Fitch, Moody's a Standard & Poor's fel a ganlyn:</td><td>AAA</td><td rowspan="7">£11m yr un</td><td>5 mlynedd*</td></tr>
<tr><td>AA+</td><td>5 mlynedd*</td></tr>
<tr><td>AA</td><td>4 blynedd*</td></tr>
<tr><td>AA-</td><td>3 blynedd*</td></tr>
<tr><td>A+</td><td>2 flynedd</td></tr>
<tr><td>A</td><td rowspan="2">Blwyddyn</td></tr>
<tr><td>A-</td></tr>
<tr><td>BBB+</td><td>£4m yr un</td><td>100 diwrnod</td></tr>
<tr><td colspan="2">Banc cyfrif cyfredol yr Awdurdod (Barclays Bank plc) os yw'n methu â chyrraedd y meini prawf uchod</td><td>£1m</td><td>y diwrnod nesaf</td></tr>
<tr><td colspan="2">Llywodraeth Ganolog y DU (waeth beth yw'r statws credyd)</td><td>anghyfyngedig</td><td>10 mlynedd**</td></tr>
<tr><td colspan="2">Awdurdodau Lleol y DU (waeth beth yw'r statws credyd)</td><td>£11m yr un</td><td>2 flynedd</td></tr>
<tr><td colspan="2">Darparwyr Tai Cymdeithasol Cofrestredig yn y DU sydd â statws credyd tymor hir isaf, wedi'i gyhoeddi, o A- neu uwch</td><td>£5m yr un</td><td>2 flynedd</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cymdeithasau Adeiladu yn y DU heb statws credyd</td><td>£1m yr un</td><td>Blwyddyn</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfunedig eraill</td><td>£6m yr un</td><td>am.</td></tr>
<tr><td colspan="2" rowspan="3">Unrhyw sefydliad arall, yn amodol ar asesiad credyd allanol a chyngor penodol gan ymgynghorydd rheolaeth trysorlys yr Awdurdod</td><td>£5m yr un</td><td>3 mis</td></tr>
<tr><td>£1m yr un</td><td>Blwyddyn</td></tr>
<tr><td>£100k yr un</td><td>5 mlynedd</td></tr>
<tr><td colspan="2">Benthyciadau busnes i gwmnïau lleol***</td><td>£3m yr un</td><td>10 mlynedd</td></tr>
</table>

* ond dim hwy na 2 flynedd mewn adneuon cyfnod penodol ac offerynnau anhylifol eraill

** ond dim hwy na 2 flynedd mewn adneuon cyfnod penodol ac offerynnau anhylifol eraill

*** Bydd rhoi'r benthyciadau hyn yn cael eu cymeradwyo trwy'r broses y manylir arni ym mharagraff 5.9 isod. Nid yw gwerthuso'r benthyciadau busnes yn rhan o'r cyngor na'r gwasanaethau a dderbynnir gan ymgynghorwr trysorlys y Cyngor.

5.12 **Buddsoddiadau Amhenodedig:** Mae unrhyw fuddsoddiad nad yw'n bodloni'r diffiniad ar gyfer "buddsoddiad penodedig" yn cael ei gategoreiddio fel "buddsoddiad amhenodedig". Nid yw'r Cyngor yn bwriadu gwneud unrhyw fuddsoddiadau mewn arian gwlad dramor. Bydd buddsoddiadau amhenodedig felly'n gyfyngedig i fuddsoddiadau tymor hir h.y. y rheini sydd i fod i aeddfedu 12 mis neu hwy ar ôl dyddiad y trefniant; y rheini gaiff eu diffinio fel gwariant cyfalaf yn ôl y ddeddfwriaeth, megis cyfranddaliadau mewn cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfunedig eraill; a buddsoddiadau gyda chyrff a rhaglenni nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o "ansawdd credyd uchel". Mae'r cyfyngiadau ar fuddsoddiadau amhenodedig i'w gweld yn nhabl 3 isod.

**Tabl 3: Cyfyngiadau ar Fuddsoddiadau Amhenodedig**

| | **Cyfyngiad arian** |
|---|---|
| Cyfanswm buddsoddiadau tymor hir | £30m |
| Cyfanswm y cyfranddaliadau mewn cronfeydd marchnad arian | £35m |
| Cyfanswm y buddsoddiadau heb statws credyd neu gyda statws sy'n is na [A-] | £20m |
| Cyfanswm y buddsoddiadau mewn gwledydd tramor sydd â statws sy'n is na [AA+] | £7m |
| Cyfanswm y buddsoddiadau amhenodedig | £60m |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD:** | **4 Rhagfyr 2014** |
| **AELOD CABINET:** | **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn** |
| **TEITL:** | **CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2015/16** |
| **AMCAN:** | **Cadarnhau parhad y Cynllun Lleol cyfredol ar gyfer darparu cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2015.** |
| **AWDUR:** | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

## 1. Crynodeb Gweithredol

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor ac i'w gymeradwyo ar gyfer 2015/16.

1.2 Ar 1 Ebrill 2013, fel rhan o raglen diwygio lles Llywodraeth San Steffan, diddymwyd Budd-dal y Dreth Cyngor, a cyflwynwyd Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor yn ei le.

1.3 Yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, rhaid i bob awdurdod lleol ddarparu cynllun er mwyn pennu pa ostyngiadau fydd ar gael fel cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor. Mabwysiadwyd cynllun lleol cyfredol Cyngor Gwynedd gan y Cyngor Llawn ar 5 Rhagfyr 2013.

1.4 Dan y cynllun lleol, gall trethdalwyr cymwys barhau i dderbyn gostyngiad hyd at 100% o werth eu biliau Treth Cyngor (lle'n derbyn rhai budd-daliadau).

1.5 **Argymhellir fod Cynllun Lleol Cyngor Gwynedd yn parhau heb ei addasu ar gyfer 2015/16.** Mae eglurhaon manwl a rhesymau tu ôl i'r argymhellion dilynol yng nghorff dilynol yr adroddiad hwn.

## 2. Argymhellion

**Gofynnir i'r Cyngor llawn benderfynu yn ffurfiol i –**

**2.1 Barhau i weithredu Cynllun Lleol y Cyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2015 fel ag yr oedd yn ystod 2014/15. Felly, bydd yr amodau canlynol (a – c isod) ynghylch yr elfennau disgresiwn yn parhau:**

**a) Gweithredu diystyrwch o 100% i bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a hawlwyr oed gweithio fel ei gilydd.**

**b) Peidio cynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r pedair wythnos safonol sy'n y Cynllun Rhagnodedig.**

**c) Peidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r tri mis safonol sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn y Cynllun Rhagnodedig.**

**2.2 Lle'n briodol, dirprwyo'r grym i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Atal Tlodi, i wneud mân addasiadau i'r cynllun am 2015/16, ar yr amod na fydd yn newid sylwedd y cynllun.**

## 3. Gwybodaeth Gefndirol

3.1 Adroddwyd i'r Cyngor llawn ar 24 Ionawr 2013 fod Deddf Diwygio Lles 2013 yn cynnwys darpariaethau i ddiddymu Budd-dal y Dreth Gyngor ar 31 Mawrth 2013. O'r 1 Ebrill 2013, trosglwyddwyd cyfrifoldeb am drefnu cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor a'r cyllid sydd ynghlwm â hi o'r DWP i awdurdodau lleol yn Lloegr ac i Lywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru.

3.2 Roedd y Rheoliadau perthnasol ar gyfer blwyddyn gyntaf y cynllun (h.y. y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2013) yn cynnwys "cymal machlud" a oedd yn golygu mai am flwyddyn ariannol 2013/14 yn unig yr oeddynt yn berthnasol.

3.3 Fodd bynnag, cymeradwywyd Rheoliadau newydd Llywodraeth Cymru (Rheoliadau 2013) gan y Cynlluniad Cenedlaethol ar 27 Tachwedd 2013. Mae'r Rheoliadau hyn yn berthnasol ar gyfer pob blwyddyn ariannol o 2014/15 ymlaen.

3.4 Mae'r rheoliadau yn galluogi'r ddarpariaeth o gymorth cymaint â 100% o'r dreth i'r hawlwyr ac yn ariannu rhan o'r gost berthnasol.

3.5 Cymeradwywyd Cynllun Lleol Cyngor Gwynedd am 2014/15, sy'n seiliedig ar reoliadau 2013, gan y Cyngor Llawn ar 5 Rhagfyr 2013. Mae'r Rheoliadau yn rheoli gweithrediad cynlluniau gostyngiadau ar draws Cymru gyfan ac wedi'u cynllunio i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cyflwyno cymorth i drethdalwyr Cymreig ar ffurf gyson.

## 4. Cynllun Gostyngiadau 2015/16

4.1 Cymeradwywyd y 'Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013' a'r 'Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013', fel y'i cyflwynwyd gan Lesley Griffiths (y Gweinidog Llywodraeth Leol) ar ran Llywodraeth Cymru, gan y Cynulliad ar 27 Tachwedd 2013. Mae'r rheoliadau hyn yn gymwys ar gyfer Cynlluniau Gostyngiad Treth Cyngor ar gyfer blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2014. Hynny yw, 2014/15 a pob blwyddyn ariannol yn dilyn hynny, tan y bydd y Rheoliadau yn cael eu disodli.

4.2 Mae'r Rheoliadau (Rheoliad 18) yn datgan fod rhaid i awdurdod ystyried a ddylai ddiwygio ei gynllun neu ei amnewid gan gynllun arall ar gyfer pob blwyddyn ariannol; rhaid i'r awdurdod wneud unrhyw ddiwygiad yn ei gynllun, neu unrhyw gynllun a amnewidir, ddim hwyrach na 31 Ionawr yn y flwyddyn ariannol sy'n rhagflaenu'r flwyddyn ariannol pan fo'r diwygiad neu'r cynllun a amnewidir i gael effaith.

4.3 Mae'r Rheoliadau (Rheoliad 12) yn datgan na ellir dirpwyo'r swyddogaeth o wneud y cynllun i'r Cabinet, a rhaid ei benderfynu gan y Cyngor llawn.

4.4 Felly, bwriad yr adroddiad yma yw bodloni'r gofyn i'r Cyngor ystyried a ddylai ddiwygio ei gynllun lleol.

4.5 Mae disgresiwn cyfyngedig o dan y Cynllun Rhagnodedig i gynghorau ystyried y 3 elfen dewisol penodol canlynol. Mae'r elfennau disgresiwn yma'n fwy hael na'r cynllun cenedlaethol.

Pensiynau anabledd rhyfel a phensiynau gweddwon rhyfel
*(argymhelliad 2.1(a) uchod)*

4.6 Mae disgresiwn i gynyddu'r diystyrwch o bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a phobl oed gwaith fel ei gilydd.

Ar hyn o bryd, mae £10 cyntaf pensiwn anabledd a phensiwn gweddwon rhyfel wythnosol yn cael ei ddiystyru dan y rheoliadau. Fodd bynnag, mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i ddiystyru hyd at 100% o'r gwir swm dros y £10 cyntaf. Ers 1 Ebrill 1996, penderfynodd Cyngor Gwynedd, fel y mwyafrif o Awdurdodau eraill yng Nghymru, ddiystyru 100% o bensiynau rhyfel dros £10. Yn 2015/16, amcangyfrifir y bydd y diystyrwch hwn o bensiynau rhyfel yn costio £30,000 i'r Awdurdod mewn gostyngiadau Treth Cyngor. Dyma yw sefyllfa 2014/15, felly mae'r ddarpariaeth berthnasol eisoes wedi'i gynnwys yn y gyllideb sylfaenol ac yn strategaeth ariannol 2015/16.

Argymhellir fod caniatáu'r disgresiwn lleol hwn yng Ngwynedd yn parhau.

Cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bobl oed gwaith
*(argymhelliad 2.1(b) uchod)*

4.7 Mae disgresiwn i gynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bobl oed gwaith o'r pedair wythnos safonol wedi iddynt ddychwelyd yn ôl i'r gwaith, hynny os iddynt fod wedi derbyn budd dal perthnasol am o leiaf 26 wythnos.

Ni cheir unrhyw gyfyngiad ar y cyfnod hiraf gallant gael eu hymestyn iddo ond byddai goblygiadau ariannol. Amcangyfrifir fod cost 4 wythnos safonol o gyfnod estynedig yn £20,000.

Argymhellir parhau i beidio addasu'r pedair wythnos o gyfnod estynedig sy'n y Cynllun Rhagnodedig.

Cyfnod ôl-ddyddio ceisiadau hwyr
*(argymhelliad 2.1(c) uchod)*

4.8 Mae disgresiwn i gynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio cais hwyr tu hwnt i'r cyfnod tri mis safonol. Ni cheir unrhyw gyfyngiad ar y cyfnod hiraf gallant gael eu hymestyn iddo. Amcangyfrifir mai £28,000 yw cost caniatáu'r ôl ddyddio cyfredol (3 mis).

Mae'r Cynllun Gostyngiadau presennol yn caniatáu ôl-ddyddio ceisiadau hwyr am gyfnod hyd at dri mis. Byddai ymestyn y cyfnod yn cynyddu cost y cynllun.

Argymhellir parhau i beidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio o'r tri mis safonol sy'n y Cynllun Rhagnodedig.

**4.9 Mae'r argymhellion uchod ar gyfer 2015/16 yn unol â threfniadau cyfredol 2014/15.**

## 5. Ymgynghori

5.1 Petai'r Cyngor am addasu ei gynllun lleol – i bob pwrpas trwy newid y 3 maes o ddisgresiwn lleol a ddisgrifir ym mharagraffau 4.6 i 4.8 – byddai'n rhaid iddo ymgynghori gydag "unrhyw un sydd â diddordeb".

5.2 Bu ymarferiad ymgynghori hynod drylwyr a chynwysedig yn Rhagfyr 2012 / Ionawr 2013 ar gyfer cynllun 2013/14, a cynhaliwyd ymgynghoriad pellach o 29/11/13 tan 10/01/14 ar gyllun 2014/15.

5.3 Gan nad oes bwriad i addasu'r Cynllun Lleol eleni, nid oes angen ymgynghori pellach.

## 6. Asesiad Effaith Cydraddoldeb

6.1 Ar wahân i'r ariannu ar lefel y Cyngor, nid yw'r cynllun a gynigir ar gyfer 2015/16 yn cynnwys unrhyw newidiadau sylweddol o'r cynllun sy'n weithredol ar hyn o bryd. Felly, ni gynhaliodd Cyngor Gwynedd astudiaeth Asesiad Effaith Cydraddoldeb lleol eleni. Gwnaethpwyd hynny ar gyfer 2013/14, pan newidwyd y drefn o'r Budd-dal Treth Cyngor i'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor.

6.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad effaith 'rheoleiddiol', sy'n cynnwys asesiad effaith cydraddoldeb, a deallaf roedd y darganfyddiadau yn unol â'u disgwyliadau.

## 7. Adnoddau

7.1 Wrth fabwysiadu'r Cynllun Lleol yn Rhagfyr 2013, adroddwyd i'r Cyngor fod cryn aneglurder os oedd holl gostau Gostyngiadau Treth Cyngor wedi eu cynnwys yn 'setliad' grant 2015/16 i lywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru, ynteu os mai 90% yn unig oedd yn cael ei ariannu gan y Llywodraeth, gyda'r awdurdodau lleol yn ariannu'r 10% arall. Yn y flwyddyn flaenorol, roedd 90% wedi ei gynnwys yn y setliad, gyda'r 10% arall wedi ei ariannu trwy grant penodol.

7.2 Roedd 'setliad' 2014/15 yn cynnwys ymrwymiad i lywodraeth leol gwrdd â chost llawn Gostyngiadau Treth Cyngor, ac adroddwyd fod y gwir ostyngiad mewn grant cynnal refeniw Cymreig rhwng 2013/14 ac 2014/15 (yn genedlaethol) yn agosach at 4% na'r ffigwr 3.5% ddaru'r Llywodraeth gydnabod yn gyhoeddus, gan fod awdurdodau lleol wedi gorfod ariannu 10% o'r gostyngiadau.

7.3 Eleni, mae'r sefyllfa ychydig yn waeth, gan fod y swm yn y setliad wedi lleihau ychydig – cost tybiannol y Gostyngiadau Treth Cyngor yng Ngwynedd yn 2015/16 (yn ôl rhaniad tybiannol y cyfanswm SSA rhwng gwasanaethau yn nhablau'r setliad amodol) yw £8.899m, o'i gymharu â £8.961m ar gyfer 2014/15.

7.4 Yn ogystal ag ariannu'r "10%" sydd ddim yn y setliad, rhaid i'r Cyngor ddygymod gyda chost y twf mewn baich achosion, yn ogystal â chwyddiant, fydd ddim yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. O safbwynt chwyddiant, bydd cost y cymorth yn cynyddu'n gymesur â'r codiad yn y Dreth Cyngor.

7.5 Nid oes dewis ond wynebu'r sefyllfa yma, a bydd yr uchod wedi'i ystyried yn briodol a'i ffactorio mewn i'r Strategaeth Ariannol sy'n adnabod y bwlch ariannol yng nghyllideb 2015/16.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD:** | **4 Rhagfyr 2014** |
| **AELOD CABINET:** | **Cynghorydd Peredur Jenkins** |
| **TEITL:** | **TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU** |
| **AMCAN:** | **Cadarnhad ffurfiol am 2014/15 ac wedi hynny o'r penderfyniadau blaenorol i beidio caniatáu disgownt i ail gartrefi a pheidio caniatáu disgownt ar eiddo gwag.** |
| **AWDUR:** | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

## 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

1.1 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol i ganiatáu DIM disgownt i ail gartrefi.

1.2 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 2009, i BEIDIO â chaniatáu disgownt ynghylch eiddo gwag.

1.3 Mae'n ddoeth ceisio penderfyniad blynyddol gan y Cyngor llawn ynglŷn â'r materion yma.

## 2. ARGYMHELLION

**2.1 Gofynnir felly yn ffurfiol i'r Cyngor fabwysiadu eto am 2015/16 y bydd Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i'r ddau ddosbarth o ail gartrefi (dosbarthau A a B) fel a ddiffinnir yn Rheoliadau Treth Cyngor (Dosbarthau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) 1998.**

**2.2 Ymhellach, gofynnir hefyd i'r Cyngor benderfynu yn ffurfiol am 2015/16 i BEIDIO â chaniatáu disgownt yng nghyswllt eiddo gwag (dosbarth C).**

## 3. CEFNDIR DEDDFWRIAETHOL

3.1 Rhoddir disgresiwn i Gynghorau o dan Adran 12 o'r Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 fel a ddiwygir gan Adran 75 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, a Rheoliadau'r Dreth Cyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998, fel a ddiwygir gan Reoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004 i ganiatáu disgownt, ai peidio, i ddau gategori o ail gartrefi (dosbarthau A a B isod) ac i eiddo gwag tymor hir (dosbarth C). Gall y disgownt fod yn 50%, neu raddfa lai o ganran, neu ddim disgownt o gwbl.

3.2 Tra bod rheoliadau eisoes yn caniatáu i'r Cabinet gymryd penderfyniad ar sylfaen treth cyngor, **rhaid sicrhau penderfyniad parthed hawl disgownt o'r Cyngor llawn**. Am resymau technegol (gweler 4.3 isod), gofynnir eto am gadarnhad blynyddol o'r penderfyniad i beidio caniatáu disgowntiau.

## 4. POLISI CYFREDOL A BWRIAD

4.1 Mae’r Cyngor wedi penderfynu caniatáu DIM disgownt i ail gartrefi (dosbarthau A a B) ym mhob blwyddyn ers derbyn hawl disgresiwn o dan reoliadau 1998, ac argymhellir isod fod hyn i barhau yn 2015/16.

4.2 Mae’r Cyngor hefyd wedi penderfynu PEIDIO â chaniatáu disgownt o 50% i ddosbarth C (eiddo gwag) ers 2009/10, ac argymhellir isod fod hyn i barhau yn 2015/16.

4.3 Er mwyn osgoi’r gofyn am benderfyniad blynyddol ar yr uchod, penderfynwyd yng nghyfarfod 21 Ionawr 2010 o’r Cyngor llawn i gadarnhau fod y polisi yma i barhau tu hwnt i 2010/11, ac ymhellach hyd nes bydd eitem berthnasol yn cael ei daflennu ar raglen y Cyngor llawn. Fodd bynnag, ddaru ystyriaeth tribiwnlys prisio o achos parthed eiddo mewn sir arall godi amheuaeth ynglŷn â dilysrwydd penderfyniad a pholisi parhaol ar hyn, a’r farn gyfreithiol yw y byddai’n osgoi elfen o risg i’r Cyngor pe bawn yn sicrhau penderfyniad blynyddol ar gyfer y mater.

4.4 Mae strategaeth ariannol 2015/16, a setliad grant y Cyngor gan Lywodraeth Cymru, wedi’i seilio ar barhad y polisi i ganiatáu DIM disgownt, a byddai rhaid i unrhyw newid i’r polisi hwnnw gael ei ariannu gan y Cyngor yn 2015/16.

## 5. “Y RHEOLIADAU” - RHEOLIADAU TRETH CYNGOR (DOSBARTH O EIDDO PENODEDIG) (CYMRU) 1998 / RHEOLIADAU’R DRETH GYNGOR (DOSBARTHAU RHAGNODEDIG AR ANHEDDAU) (CYMRU) (DIWYGIO) 2004

5.1 Yn y Rheoliadau uchod mae 'ail gartrefi' wedi'u categoreiddio i ddau ddosbarth, sef dosbarthau A a B, tra bod dosbarth C nawr yn cyfeirio at eiddo gwag:

- **Dosbarth A** - Ail gartrefi sy'n ddiddeiliad ac wedi’u dodrefnu lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf mewn cyfnod o 12 mis.
- **Dosbarth B** - Ail gartrefi sy'n ddiddeiliad ac wedi’u dodrefnu.
- **Dosbarth C** - Yn ddiddeiliad a heb eu dodrefnu ac wedi bod felly am gyfnod o dros 6 mis.

5.2 Mae’r Rheoliadau yn caniatáu disgresiwn i'r Cyngor godi Treth Cyngor llawn, neu i ganiatáu disgownt o 25% neu 50% i ddosbarthau A a B.

5.3 Yn yr un modd, mae’r Rheoliadau yn caniatáu i’r Cyngor barhau i ganiatáu disgownt 50%, neu raddfa lai o ganran, neu ddim disgownt o gwbl ar ddosbarth C.

## 6. AIL GARTREFI

6.1 Ymhellach i newidiadau yn y rheoliadau cenedlaethol, yn y dyfodol bydd yn bosib codi mwy na’r 100% arferol o Dreth Cyngor ar ail gartrefi, trwy godi premiwm yn hytrach nac ystyried disgownt.

6.2 Ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill, ymgyrchodd Arweinydd y Cyngor, Aelodau Cabinet a sawl swyddog i annog datblygiad o’r fath, gydag awdurdodau lleol yn cadw’r incwm treth cyngor ychwanegol gynhyrchwyd.

6.3 Gwnaethpwyd argymhellion i Lywodraeth Cymru ar ran Cyngor Gwynedd yn cefnogi cyflwyno premiwm gan ar yr un pryd danlinellu'r angen am fesur i reoli / atal trosglwyddo ail gartrefi i unedau busnes i'w gosod ar gyfer gwyliau a'r gyfundrefn treth busnes.

6.4 Deallwn fod Deddf Tai (Cymru) 2014 nawr yn cynnwys y ddarpariaeth ddewisol i gynghorau i godi "premiwm" o ddim mwy na 100% yn y cyd-destun yma ond bod rhaid wrth orchymyn cychwynnol cyn gweithrediad.

6.5 Deallwn fod y gorchymyn cychwynnol wedi ei raglennu ar gyfer 2015/16. Rhagwelir hefyd y bydd yr oll o'r rheoliadau perthnasol wedi eu diwygio yn ystod 2015/16, fel y gellir dod i benderfyniad a darparu rhybudd ffurfiol i'r trethdalwyr effeithir flwyddyn lawn cyn y dyddiad codi'r dreth yn Ebrill 2017.

6.6 Yn y cyfamser, ar gyfer 2015/16 a 2016/17, argymhellir (2.1 uchod) i'r Cyngor beidio â chaniatáu unrhyw ddisgownt i ail gartrefi.

## 7. EIDDO GWAG

7.1 Mabwysiadwyd Strategaeth Tai Gwag Cyngor Gwynedd yn Chwefror 2009. Mae'r Cyngor hefyd wedi cydnabod pwysigrwydd rhoddi sylw i dai gwag o fewn ei Gynllun Strategol (dwyn eiddo gwag yn ôl i ddefnydd). Datganiad cenhadaeth y Strategaeth Tai Gwag yw: *"Bydd Cyngor Gwynedd yn ymdrechu i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Ein nod yw cyfrannu at les y gymdogaeth, cynyddu'r cyflenwad tai, lleihau digartrefedd neu'r posibilrwydd o ddigartrefedd, ac ar yr un pryd, lleihau'r pwysau ar y Rhestr Aros Tai".*

7.2 Ers Ebrill 2009, mae 100% o'r dreth cyngor wedi cael ei godi ar anheddau gwag hir dymor, yn dilyn naill ai cyfnod eithrio o 6 mis, neu gyfnod eithrio estynedig o 12 mis os oedd yr eiddo'n cael ei adnewyddu'n sylweddol. Byddai darparu unrhyw ddisgownt yn rhoi cymhelliad anffodus i berchnogion gadw anheddau yn wag. Mae'n rhan o'r Strategaeth Tai Gwag fod y Cyngor am ymarfer ei disgresiwn i godi 100% o dreth cyngor ar anheddau sy'n wag yn y tymor hir, fel cymhelliad i ddod â'r anheddau hyn yn ôl i ddefnydd. Argymhellir i'r Cyngor llawn barhau â'r penderfyniad o beidio caniatáu'r disgownt ar eiddo gwag yn 2015/16.

7.3 Ym mis Hydref 2012, bu ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru yng nghyswllt trethu eiddo gwag a'r grym i godi mwy na 100% o Dreth Cyngor ar eiddo gwag hirdymor. Ar y 18fed o Dachwedd 2013, cyhoeddwyd Bil Tai (Cymru) 2013.

7.4 Yn debyg i'r hyn a gyfeirir at yr ail gartrefi uchod, mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn cynnwys darpariaeth ddewisol i gynghorau i godi premiwm treth cyngor o ddim mwy na 100% ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy.

7.5 Eto mae'r ddarpariaeth angen gorchymyn cychwynnol cyn gweithredu. Fel yr ail gartrefi, y dyddiad cyntaf y gellir codi unrhyw bremiwm yw Ebrill 2017. Yn y cyfamser, ar gyfer 2015/16 a 2016/17, argymhellir (2.2 uchod) fod y Cyngor yn mabwysiadu peidio â chaniatáu unrhyw ddisgownt eiddo gwag.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD** | **4 Rhagfyr 2014** |
| **TEITL** | **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd - Amserlen ddiwygiedig yn y Cytundeb Cyflawni** |
| **PWRPAS** | **Adrodd am yr amserlen ddiwygiedig y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, er mwyn cael cymeradwyaeth y Cyngor cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r amserlen ddiwygiedig i baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd er mwyn adlewyrchu'r newid mewn amgylchiadau a chydymffurfio a gofynion deddfwriaeth** |
| **AWDUR** | **Aled Davies, Pennaeth Adran Rheoleiddio** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. John Wyn Williams** |

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – yr amserlen ddiwygiedig**

1. Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn cydweithio i baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd ac ardal Ynys Môn.

2. Bydd yr Aelodau'n cofio bod Cytundeb Cyflawni yn nodi sut a phryd y bydd y Cyngor yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Cafodd y Cytundeb Cyflawni presennol ei gymeradwyo gan y ddau Gyngor erbyn diwedd mis Rhagfyr 2013. Fe gafodd ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2014.

3. Am nifer o resymau du hwnt i reolaeth yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, bu angen mwy o amser i baratoi'r fersiwn Adnau o'r Cynllun. Nodwyd y rhesymau am y llithriad a'r amserlen ddiwygiedig mewn adroddiad i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ym mis Medi 2014. Mae'r canlynol yn rhoi dolen i'r adroddiad http://www.gwynedd.gov.uk/gwy_pwyllgorau.asp?cat=8496&doc=31593&Language=2.

4. Fe wnaeth y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd argymell bod camau'n cael eu cymryd i gael cymeradwyaeth y ddau Gyngor o'r amserlen ddiwygiedig a welir yn **Atodiad 1.**

5. Mae adroddiad tebyg yn derbyn ystyriaeth gan Gyngor Sir Ynys Môn ar 4ydd Rhagfyr 2014.

6. Ar ôl i'r Cynghorau gymeradwyo'r amserlen ddiwygiedig fe gaiff y Cytundeb Cyflawni ei ddiwygio yn unol â hynny a'i yrru i Lywodraeth Cymru am ei gefnogaeth. Yna fe gaiff y Cytundeb Cyflawni diwygiedig a llythyr Llywodraeth Cymru ei roi yn swyddfeydd y Cynghorau ac ar wefan y ddau Gyngor.

**Argymhelliad**

7. Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r amserlen ddiwygiedig i baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd er mwyn adlewyrchu'r newid mewn amgylchiadau a chydymffurfio a gofynion deddfwriaeth.

**ATODIAD 1 Amserlen ddiwygiedig paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd**

| Cam yn y broses paratoi | | Amserlen gyfredol | Amserlen ddiwygiedig |
|---|---|---|---|
| 1. | Paratoi a chyhoeddi'r Cytundeb Cyflawni terfynol (*Rheoliad 5 – 10)* | Ionawr – Tachwedd 2011 | Ionawr – Tachwedd 2011 |
| 2. | Adolygu'r sail tystiolaeth a'i ddatblygu | Gorffennaf 2010 – Hydref 2012 | Gorffennaf 2010 – Hydref 2012 |
| 3. | Cyfranogiad Cyn- adneuo – paratoi'r dogfennau cyn-adneuo a fydd yn amlinellu'r prif amcanion a'r hoff strategaeth (*Rheoliad 14).* Ni fydd hwn yn ddrafft llawn o'r CDLl ar y Cyd | Ionawr 2011 –Hydref 2012 | Ionawr 2011 –Hydref 2012 |
| 4. | Ymgynghori Cyn-adneuo – cyfnod 6 wythnos (*Rheoliad 15*). Ymgynghoriad ffurfiol am y dogfennau cyn-adneuo a'r adroddiad asesiad cynaladwyedd | Mai – Mehefin 2013 | Mai – Mehefin 2013 |
| 5. | Cyfranogiad – datblygu'r sail tystiolaeth ymhellach a pharatoi CDLl ar y Cyd Adneuo (cynllun drafft llawn) a fydd wedi selio ar y sail dystiolaeth, sy'n cynnwys yr ymateb a gafwyd i'r dogfennau cyn-adneuo | Gorffennaf 2013 - Mawrth 2014 | Gorffennaf 2013 - **Rhagfyr 2014** |
| 6. | Rhoi'r CDLl ar y Cyd a dogfennau cysylltiol ar adnau – cyfnod ymgynghori 6 wythnos (*Rheoliad 17*) | Mai – Mehefin 2014 | **Chwefror – Mawrth 2015** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | Amserlen ddangosol | | |
| 7. | Ystyried sylwadau am y CDLl ar y Cyd Adnau (*Rheoliad 18 & 19)* | Gorffennaf 2014 – Ionawr 2015 | **Ebrill 2015 – Tachwedd 2015** |
| 8. | Cyhoeddi sylwadau am safleoedd amgen, ymgynghori amdanynt – cyfnod 6 wythnos (*Rheoliadau 20 & 21)* | Medi – Hydref 2014 | **Mehefin - Gorffennaf 2015** |
| 9. | Cyflwyno'r CDLl ar y Cyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer Archwiliad (*Rheoliad 22)* | Chwefror 2015 | **Rhagfyr 2015** |
| 10. | Archwiliad Cyhoeddus Annibynnol (*Rheoliad 23)* | Mehefin 2015 | **Ebrill 2016** |
| 11. | Cyhoeddiad Adroddiad yr Arolygydd (*Rheoliad 24)* | Mawrth 2016 | **Hydref 2016** |
| 12. | Mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd (*Rheoliad 25)* | Mai 2016 | **Rhagfyr 2016** |
| 13. | Monitro ac Adolygu | Adroddiad blynyddol | Adroddiad blynyddol |